

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services	1
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport	4

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

#### Gwasanaethau Niwrolegol yn y Gogledd Neurological Services in North Wales

**Q8 Janet Ryder:** Will the Minister make a statement on neurological services in north Wales? OAQ0245(HSS)

**C8 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau niwrolegol yn y Gogledd? OAQ0245(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** Neurology out-patient services in north Wales are provided on an outreach basis at each of the three district general hospitals by the Walton Centre for Neurology and Neurosurgery NHS Trust. This service is commissioned as part of the Health Commission Wales long-term agreement with the Walton Centre.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Darperir gwasanaethau niwrolegol i gleifion allanol yn y Gogledd drwy system allgymorth ym mhob un o'r tri ysbyty cyffredinol dosbarth gan y Walton Centre for Neurology and Neurosurgery NHS Trust. Caiff y gwasanaeth hwn ei gomisiynu fel rhan o gyfundeb tymor hir Comisiwn Iechyd Cymru gyda chanolfan Walton.

#### Darpariaeth Gofal Iechyd y Tu Allan i Oriau Arferol Out-of-hours Healthcare Provision

**Q9 Jenny Randerson:** What is the Assembly Government doing to improve out-of-hours healthcare provision? OAQ0235(HSS)

**C9 Jenny Randerson:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i wella darpariaeth gofal iechyd y tu allan i oriau arferol? OAQ0235(HSS)

**Brian Gibbons:** Local health boards commission out-of-hours healthcare provision and the specifications for these services include detailed quality standards. These standards are monitored by boards. This monitoring shows that the performance

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sy'n comisiynu'r ddarpariaeth gofal iechyd y tu allan i oriau, ac mae'r fanyleb ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cynnwys safonau ansawdd manwl. Y byrddau sy'n monitro'r safonau hyn. Mae'r gwaith monitro hwn yn

against standards has improved since the services have been commissioned.

dangos bod perfformiad yn unol â'r safonau wedi gwella ers i'r gwasanaethau gael eu comisiynu.

### Ysbytai Hospitals

**Q10 Nick Bourne:** Will the Minister make a statement on his policies for improving hospitals in Wales? OAQ0242(HSS)

**C10 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei bolisiau ar gyfer gwella ysbytai yng Nghymru? OAQ0242(HSS)

**Brian Gibbons:** Improving hospitals is part of the wider strategy of improving health and health services for people in Wales. Unprecedented capital investment from £120 million in 2005-06 to £309 million in 2007-08, more doctors, nurses and consultants and the work of the wider health community will help to deliver quality services for patients.

**Brian Gibbons:** Mae gwella ysbytai yn rhan o'r strategaeth ehangach ar gyfer gwella iechyd a gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl Cymru. Bydd buddsoddiad cyfalaf uwch nag erioed o £120 miliwn yn 2005-06 i £309 miliwn yn 2007-08, rhagor o feddygon, nyrsys ac ymgynghorwyr, a gwaith y gymuned iechyd yn ehangach yn helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i gleifion.

### Addewidion ar Gyfer Iechyd Pledges for Health

**Q11 Janet Davies:** Will the Minister make a progress report on meeting the Government's pledges for health? OAQ0252(HSS)

**C11 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog adroddiad cynnydd ar fodloni addewidion y Llywodraeth ar gyfer iechyd? OAQ0252(HSS)

**Brian Gibbons:** On 19 May 2005, I launched a new 10-year strategy, 'Designed for Life', that sets out a way ahead for health and social services in Wales. This will build on the earlier strategic objectives set in 'Building for the Future' and 'Improving Health in Wales'.

**Brian Gibbons:** Ar 19 Mai 2005, lansiais strategaeth 10 mlynedd newydd, 'Cynllun Oes' sy'n nodi'r ffordd ymlaen ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y strategaeth yn adeiladu ar yr amcanion strategol a bennwyd eisoes yn 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol' a 'Gwella Iechyd yng Nghymru'.

### Nyrsys Plant Children's Nurses

**Q12 Sandy Mewies:** Does the Minister have any information on the number of specially trained children's nurses working in accident and emergency departments in Wales? OAQ0288(HSS)

**C12 Sandy Mewies:** A oes gan y Gweinidog unrhyw wybodaeth am nifer y nyrsys plant sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig sy'n gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru? OAQ0288(HSS)

**Brian Gibbons:** This information is not held centrally. Figures for specially trained children's nurses in accident and emergency departments are usually contained with numbers for registered sick children's nurses. Since 1999, we have raised the numbers of registered sick children's nurses by 7.7 per

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog. Fel arfer, bydd y ffigurau ar gyfer nyrsys plant sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig mewn adrannau damweiniau ac achosion brys wedi'u cynnwys gyda niferoedd y nyrsys plant sâl cofrestredig. Ers 1999, yr ydym wedi cynyddu niferoedd y

cent.

nyrsys plant sâl cofrestredig 7.7 y cant.

### **Llawdriniaeth Ddeintyddol yn y Gogledd Dental Surgery in North Wales**

**Q13 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on dental surgery in north Wales? OAQ0270(HSS)

**C13 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lawdriniaeth ddeintyddol yn y Gogledd? OAQ0270(HSS)

**Brian Gibbons:** The provision of maxillofacial surgery in north Wales has been centralised at Ysbyty Glan Clwyd but is a pan-north Wales service with provision at Ysbyty Maelor Wrecsam and Ysbyty Gwynedd, Bangor. There are currently two consultants, with a third due to take up a post shortly.

**Brian Gibbons:** Mae'r ddarpariaeth llawdriniaeth gên ac ar wyneb yn y Gogledd wedi ei chanoli yn Ysbyty Glan Clwyd, ac yn darparu gwasanaeth ar gyfer holl ardal gogledd Cymru i gyd, gyda darpariaeth yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd, Bangor. Ar hyn o bryd, mae dau ymgynghorydd, a bydd trydydd yn dechrau ar ei swydd cyn bo hir.

### **Gwasanaeth Damweiniau ac Achosion Brys Sir Drefaldwyn Accident and Emergency Service Provision in Montgomeryshire**

**Q14 Mick Bates:** Will the Minister make a statement on accident and emergency service provision in Montgomeryshire? OAQ0259(HSS)

**C14 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth y gwasanaeth damweiniau ac achosion brys yn sir Drefaldwyn? OAQ0259(HSS)

**Brian Gibbons:** The commissioning and provision of services, including accident and emergency, is for local health boards to determine at local level. However, I am aware that there are no accident and emergency units in Montgomeryshire. The service is provided by neighbouring district general hospitals, supplemented by minor injuries units at local community hospitals.

**Brian Gibbons:** Mater i'r byrddau iechyd lleol ar lefel leol yw comisiynu a darparu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaeth damweiniau ac achosion brys. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol nad oes unrhyw unedau damweiniau ac achosion brys yn sir Drefaldwyn. Mae'r ysbytai cyffredinol dosbarth cyfagos yn darparu'r gwasanaeth gyda chymorth unedau mân anafiadau mewn ysbytai cymunedol lleol.

### **Ysbytai Hospitals**

**Q15 Irene James:** What action has the Welsh Assembly Government taken to provide more hospitals in Wales? OAQ0274(HSS)

**C15 Irene James:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i ddarparu mwy o ysbytai yng Nghymru? OAQ0274(HSS)

**Brian Gibbons:** The Welsh Assembly Government's three-year budget for 2005-06 to 2007-08 contained a commitment to increase capital spending in the Welsh NHS from £120 million in 2005-06 to £309 million in 2007-08.

**Brian Gibbons:** Yr oedd cyllideb tair blynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2005-06 hyd 2007-08 yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu gwariant cyfalaf yn y GIG yng Nghymru o £120 miliwn yn 2005-06 i £309 miliwn yn 2007-08.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**  
**Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport**

**Datblygu Cerddorfeydd Siambr yng Nghanol De Cymru**  
**Developing Chamber Orchestras in South Wales Central**

**Q12 David Melding:** Will the Minister make a statement on developing chamber orchestras in South Wales Central? OAQ0258(CWS) *Transferred for written answer.*

**C12 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu cerddorfeydd siambr yng Nghanol De Cymru? OAQ0258(CWS) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh):** The seven chamber orchestras that received Assembly Government funding in 2004-05 have all undertaken development activity in South Wales Central. The number of events varies from one or two performances from the north and west Wales based orchestras to extensive touring programmes and outreach work for the locally based orchestras.

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae pob un o'r saith cerddorfa siambr a dderbyniodd gyllid gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2004-05 wedi gwneud gwaith datblygu yn ardal Canol De Cymru. Mae nifer y digwyddiadau'n amrywio o un neu ddau o berfformiadau gan gerddorfeydd y Gogledd a'r Gorllewin, i deithiau perfformio estynedig a gwaith allgymorth y cerddorfeydd lleol.

*Atebwyd cwestiynau 13 i 15 yn y Cyfarfod Llawn.*  
*Questions 13 to 15 were answered in Plenary.*